# Bwletin Darlledu ac Ar Alw

Rhifyn 530, 22 Medi 2025



## Nodyn i Ddarlledwyr: Defnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm (PRS) mewn rhaglennu

**Ar 31 Ionawr 2025 mabwysiadodd Ofcom gyfrifoldeb ffurfiol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm (PRS), a oedd gynt yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau a Dalir amdanynt drwy'r Ffôn (PRS).**[1]

Gelwir gwasanaethau rhyngweithiol sy'n cael eu cyrchu drwy linellau tir, ffonau symudol, cyfrifiaduron neu deledu digidol ac a dalir drwy fil ffôn defnyddiwr yn 'wasanaethau a delir dros y ffôn' neu 'wasanaethau cyfradd premiwm'.

Gall PRS gynnwys rhoddion elusennol trwy neges destun, llinellau sgwrsio, cystadlaethau darlledu a phleidleisio, a gwasanaethau gwybodaeth.

I adlewyrchu'r newid yn y fframwaith rheoleiddio ar gyfer PRS, rydym wedi diweddaru'r rheolau yn Adran Naw ac Adran Deg o Gôd Darlledu Ofcom sy'n berthnasol i hyrwyddo PRS mewn rhaglenni teledu a radio.

**Am ragor o wybodaeth am wasanaethau cyfradd premiwm**: Canllaw cyflym i wasanaethau cyfradd premiwm (PRS) - Ofcom

[1] Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm - Ofcom